# Cyfarfod Grŵp Ecosystemau Coetiroedd (CGEC) 15

## Tŷ Ladywell, Y Drenewydd

## Dydd Mercher 22 Ionawr 2014
## 10.30am– 3.00pm

Yn bresennol

Chris Tucker (CTu) – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Tracey Lovering (TL) – Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC)
David Jenkins(DJ) – Coed Cymru
Richard Jones (RJ) – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Fiona McFarlane(FM) – Llywodraeth Cymru
Hilary Miller (HM) - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Lesley Fletcher (LF) - RSPB
Jim Latham (JLm) – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Nigel Ajax-Lewis (NAL) – Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru (WTSWW)
Celia Thomas (CTh) – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCNPA)
Jerry Langford (JLd) – Coed Cadw
Richard Crompton (RC)

### 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau

Sarah Mellor –Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Elen Richards – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

### 2. Cynllun Gweithredu Grŵp Ecosystemau Coetiroedd (Eitem sefydlog)

Bydd Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru (BSBC) yn penderfynu ar bapur llywodraethiant PBC yng ngoleuni'r Strategaeth Adfer Natur. Bydd hyn yn arwain pwrpas a chyfeiriad y grwpiau ecosystemol a'u cynlluniau gweithredu. Dywedodd TL fod BSBC yn anelu at ymgynghoriad ar y Cynllun Adfer Natur yn y Gwanwyn ac y bydd strwythur PBC yn dilyn hyn. Awgrymodd TL bod y cynllun gweithredu yn nodi trawsweithio â grwpiau PBC eraill.
Awgrymodd CTu bod angen gweithredu gyda golwg ar Iechyd Planhigion a bioamrywiaeth.
Adolygu camau blaenoriaethol, coed hynafol ac adfer coetiroedd hynafol?

PWYNT GWEITHREDU (PG) 1: CTu i ailddrafftio cynllun gweithredu (diweddaru/ gosod terfyn amser a nodi trawsweithio, ychwanegu camau gweithredu bylchau tystiolaeth).

Rhoddodd HM ddiweddariad ar Chalara a bioamrywiaeth.

Tynnodd DJ sylw at y ffaith fod grŵp yn edrych ar effeithiau Chalara ar y diwydiant (Mae Chris Edwards (LlC), a Chris Jones (CNC) yn aelodau o'r grŵp).
Tanlinellodd hefyd bod y Tyllbryf Onn Emrallt yn fygythiad i goed ynn.

PG2 : CT i godi mater y Tyllbryf Onn Emrallt gydag Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain parthed asesu perygl a chynllun ymateb.

Trafodwyd y posibilrwydd y bydd P ramorum yn effeithio ar rywogaethau eraill ac ar goetiroedd cymysg. Ar hyn o bryd mae'r perygl yn gymharol fychan, mae heintio rhywogaethau yn ysbeidiol.

PG3: PAWB i ystyried pa gamau ymlaen sydd eu hangen ar gyfer iechyd planhigion yn y cam gweithredu.

Mike Townsend (Coed Cadw) wedi bod yn gwneud gwaith ar wytnwch rhywogaethau a grymuster coetiroedd.

PG4 : CTu i estyn gwahoddiad i Mike Townsend i'r cyfarfod nesaf.

Astudiaethau achos arddangosol er enghraifft coed ar gyfer llifogydd. Gallai'r grŵp ddod o hyd i enghreifftiau o'r gwasanaethau buddiol hyn.
Prosiectau ar raddfa eang megis Pont Bren.

Mae Coed Cadw wedi llunio adroddiad ar goed a llifogydd – byddant yn anfon deiseb i LlC yn fuan.

CNC – 14 o brosiectau seiliedig ar ddalgylch, Cynllun Rheoli Basn Afon (CRhBA)
Hysbyswyd ni gan JL o gronfa her Coed Cadw ar gyfer rheoli tir dalgylch.

Bydd ymgynghori ar y CDG newydd yn cychwyn yn fuan iawn.

Awgrymodd CTh bod CGEC yn ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd sefydliadau unigol yn ymateb ar wahân, cynigodd JL ymateb Coed Cadw fel man cychwyn y gallai CGEC ei newid/ychwanegu ato.

DIWEDDARIAD gan Fiona: Dechreuodd rhan Glastir yr ymgynghoriad CDG ar ddydd Iau 23 Ionawr. Gweler dolen;

Welsh Government
Proposals for the Glas

Mae cyfarfodydd cynllun rheoli dalgylch ar fin cychwyn dan arweiniad CNC, rhain yw'r 14 cynllun dalgylch y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WDF).

Bydd Coed Cadw yn gysylltiedig â'r holl gynlluniau a bydd croeso i aelodau eraill gyfrannu iddynt.

PG4: CTu Darganfod pa gysylltiadau sydd rhwng y dalgylchoedd peilot a'r cynlluniau dalgylch WDF.

## 3. Glastir Rheoli Coetir (GRhC) a **Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS)**

Mae problemau gan nad yw'r cynllun rheoli coetir yn symbylu adfer PAWS. Rhaid cael hyblygrwydd er mwyn cael gweithredu hwy. Mae angen opsiwn PAWS.

PG5: FMcF i ofyn i GRhC pa rwystrau sydd.

Nid yw Grŵp Rhanddeiliaid Glastir wedi cyfarfod ond nid yw PAWS yn cael eu crybwyll yn y brîff.

Mae ar yr RDP nesaf angen cynlluniau rheoli ar gyfer rheoli cynlluniau. Mae angen i'r rhain fod yn gymesur.

Dywedodd CTh y dylai CGEC ddylanwadu ar y lefel rheoli bioamrywiaeth sydd ei hangen mewn cynlluniau. (h.y. yn y fformat yn hytrach nag mewn cynlluniau unigol)

PG6: FMcF i siarad gyda Bill MacDonald (LlC) ar y rhan a chwaraeir gan CGEC yn nyluniad fformat y cynllun.

PG7: CTh i rannu cynllun rheoli syml delfrydol gyda'r grŵp er mwyn ei ystyried.

## 4. Ailstocio safleodd Llarwydd

Mynegodd DJ bryder ynghylch ailstocio safleoedd llwyrgwympo llarwydd oherwydd Phytophthora ramorum. A fydd cymhorthdal ar gael ar gyfer eu hailstocio? Beth yw'r cyngor ar ba rywogaeth i'w defnyddio wrth ailstocio a phryd y dylid ailstocio ar ôl y gwaith cwympo?

PG8: CT i wirio a yw'n ofynnol neu os oes cyngor er mwyn caniatáu cyfnod braenaru cyn ailstocio.

PG9: FMcF i ddarganfod pa gymorthdaliadau sydd ar gael a pha gymysgedd o goed y gellir eu plannu.

DIWEDDARIAD gan Jerry – his email

## 5. Grŵp Llywio Iechyd Coed

Mae NAL ar y Grŵp Llywio Iechyd Coed.

Nid yw'r cynllun ymateb Phytophthora wedi cael ei awdurdodi. Fodd bynnag mae cynllun diwygiedig wedi ei gyhoeddi yng Nghyhoeddiad y Gweinidog ddechrau mis Ionawr.

PG9: CT i gylchlythyru'r grŵp
Buom yn trafod ymgyrch hysbysebu ac ymwybyddiaeth.

PG10: NAL i godi cydlyniad y DU yn y Grŵp Llywio Iechyd Coed (GLlIC).

Hysbysodd HM ni am seminar 'Frax back'. Gweler manylion yn yr atodiad.

6 & 7. Grŵp Diogelu Coed, Hen Dyfiant - NAL
Grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn diogelu coed gwerthfawr sydd heb fod mewn coetiroedd. Chris James yw'r cadeirydd, mae Celia, Nigel, Hilary a David yn aelodau o'r grŵp. Mae gwaith Helfa Coed Hynafol Coed Cadw yn gynwysedig gyda Jill Butler yn cyfrannu. Mae CTh wedi cylchredeg y cylch gorchwyl (atodedig)

PG11: CT i hysbysu Julian Woodman, Tir Amaeth Amgaeedig, a Stephen Bladwell, Grŵp Arbenigol Rhywogaethau, er diddordeb.

8. Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin (CGC) coetiroedd Parc Cenedlaethol Penfro
CTh wedi dosbarthu copi diwygiedig o CGC coetiroedd y Parc Cenedlaethol. Cafwyd trafodaeth wedyn ar CGCau a sut y dylai'r grŵp ymateb. Mae angen inni adolygu'r ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer camau gweithredu yn achos coetiroedd yn flynyddol er mwyn goleuo Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl), ychwanegu i'r cynllun gweithredu.

PG10 : CTu i ychwanegu adolygu meysydd blaenoriaeth at y cynllun gweithredu.

PG11: Elen Richards, cynrychiolydd newydd CGBLl ar gyfer CGEC, i ddarganfod ym mhle mae pob CGBLl gyda'u CGC.

Yna cafwyd trafodaeth ar hysbysu System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (SAWB) a meysydd blaenoriaethol. Mae aelod sefydliadau yn ei ddefnyddio i wahanol raddau, sy'n amrywio o 'ddim o gwbl' i'w 'hunig ddyfais hysbysu'. Gwnaethom benderfynu y byddem yn cael sesiwn arddangos SAWB mewn cyfarfod yn y dyfodol gan ysgrifenyddiaeth PBC (y sawl fydd yn dod yn lle Alys) ar y manteision a'r costau (angen adnodd – nid dim ond ariannol).

Allai gwybodaeth o gymorthdaliadau a thrwyddedau fod ar SAWB? O bosibl byddai cael trwyddedau cwympo coed ar SAWB mewn ardaloedd penodol yn helpu i ganfod a yw cwympiadau yn anghyfreithlon.

PG12: PAWB i ddarganfod pa dargedau ac felly adrodd ar hynny.

Eitem agenda i'r dyfodol – Pennu Targedau

9. Monitro Cyflwr Coedwigoedd - CT

Hysbysodd CT y grŵp ynglŷn â'r gwaith gyda chomisiwn y Goedwig a Forest Research ar fonitro cyflwr coedwigoedd drwy'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol. Cafodd y priodoleddau oedd yn cael eu hystyried eu datblygu mewn trafodaeth â'r grŵp UKNWHAP. Mae CT a FMcF yn gysylltiedig a byddant yn adrodd yn ôl pan fo'n briodol.

10 . Prosiect Bylchau Tystiolaeth
Rhoddodd TL olwg gyffredinol o gamau nesaf y prosiect.
Mae'r prosiect tystiolaeth ar wefan PBC.

PG13: PAWB i adolygu'r bylchau tystiolaeth yr ydym yn eu cyflwyno. Ceisio mireinio'r cwestiynau; pa ganlyniadau ydych chi'n dymuno eu gweld?, ystyried dull dalgylch neu ardal. Ystyriwch a fyddai lleoliad yn briodol a dwyn targedau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CAF) i ystyriaeth. Gadewch i TL wybod pa newidiadau ydych chi angen eu newid.

Gofynnodd RJ pa waith cyfredol sy'n cael ei wneud. Mae'r daenlen ddiweddaraf yn dangos mewnbwn o/gan ???? ????? sydd yn dangos fod rhywfaint o ymchwil wrthi yn cael ei wneud.

Mae CT yn mynychu cyfarfod ar Ecosystemau a Bioamrywiaeth gyda FC a FR .
PG14: CT i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf a hysbysu TL.

11. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Cafodd y cofnodion blaenorol eu cymeradwyo ar ôl cywiro papurau sy'n cael eu datblygu yn eitem 6 Ymateb i glefyd.

Adolygu Rheoli Coetir – Glastir

PG1 A fydd yr adolygiad o Glastir ar wahân i'r ymgynghoriad RDP Gweler diweddariad Fiona

PG2 ddim wedi ei Gwblhau – cario ymlaen

PG3 Ymateb mewn ymgynghoriad RDP

PG4 Ymateb mewn ymgynghoriad RDP

Mae Grŵp Eiriolaeth ar gyfer Coedwigaeth Amaethyddol wedi cael ei sefydlu i oleuo Polisi Coedwigaeth Cymru. Mae JL arno ynghyd â'r sector amaethyddol, cyrff anllywodraethol a LlC.

Diweddariad ar y prosiect Plannu Stoc – Mae cynllun peilot yn cael ei gynnal gyda Coed Cymru, Coed Cadw a'r Gerddi Botanegol Cenedlaethol. Mae cynnig o £6M i'r dyfodol yn cael ei ddatblygu.

Cynllun Ymateb i Glefydau
DJ wedi siarad â John Browne ynghylch cynnig trwyddedu i reoli ailstocio ar drwyddedau ar gyfer symud coed. Byddai angen cymorthdaliadau ar gyfer ffensio ac ailstocio i gefnogi hyn.

Eitemau ar gyfer yr agenda i'r dyfodol:

Trefnu'r grŵp, Arweiniad ar wahanol bynciau, adolygu aelodaeth.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf -
Dydd Mercher 21 Mai 2014 lleoliad – Coed Cymru, Yr Hen Felin Lifio, Tregynon - i gynnwys ymweliad safle Coed Y Graig

(nodiadau isod gan Jerry am ein cyfarfod nesaf)
Mae Coed y Graig yn union y tu allan i'r Drenewydd. Mae yno faes parcio bychan ar gyfer 3-4 o geir. Plannwyd ym 1999/2000 fel coedwig o rywogaethau brodorol cymysg, a'r tro diwethaf y bûm yno roedd pethau yn gwneud yn dda iawn heb unrhyw arwydd o ddifrod gan wiwerod.
Cynllun rheoli: http://cdn.woodlandtrust.org.uk/woodfile/213/management-plan.pdf?cb=e0c731dd8adb4066bdadeffc67afbaf5

Mae Coed y Graig yn un o goetiroedd cymunedol Mileniwm 'Coedlannau ar eith Trothwy' Coed Cadw. Cafodd ei chreu o floc o dri chae o dir pori parhaol wedi ei wella a brynwyd gan yr Ymddiriedolaeth ym 1998, a lle plannwyd coed llydanddail brodorol yn bennaf ym 1999. Mae'r mynediad oddi ar ffordd gul (Lonesome Lane) oddeutu 1 filltir o ganol y Drenewydd.

Mae'r tir yn gymharol serth ac yn cynnwys copa'r bryn, lle ceir golygfeydd rhagorol dros y Drenewydd. Mae'r caeau wedi cael eu gwahanu gan wrychoedd diffaith, sydd wedi cael eu cadw i ffurfio ymylon y blociau plannu.

Mae ardal eang o dir agored wedi cael ei chadw i gynnal golygfeydd agored i'r de orllewin dros y Drenewydd. Mae'r caeau yn ffinio ar dir pori arall sydd wedi ei wella ac i'r de ddwyrain hyd at Rock Wood, coetir hynafol lled naturiol, sy'n ymestyn i'r gogledd orllewin ac sy'n gwahanu Coed y Graig oddi wrth bentref Llanllwchaearn.

Y prif nodweddion sy'n bresennol yw'r coetir brodorol newydd a'r mynediad anffurfiol cyhoeddus. Ceir nifer fawr o flociau bychain o goetir hynafol yn y rhan hon o Ganolbarth Cymru, sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio un o'r prif gasgliadau o goetir hynafol yng Nghymru.